# GALARNAD

## ER COF AM Y LLOFRUDDIAETH DDYCHRYNLLYD A GYFLAWNODD

# THOMAS DAVIES,

O Gefen-rhydd-lan-issa, plwyf Llanwenog, swydd Aberteifi, ar gorff ei Wraig a'i blentyn 9 mis oed, trwy eu tori yn arswyddus ar Ellyn (*Razor,*) a'r diwedd truenus a wnaeth arno ei hun ar yr un erfyn, dydd Mawrth, Mai 1af, 1849: a'r **TESTYN** a orchymynodd y Wraig i bregethu yn eu hangladd: a gewch ei weled yn y 26 penod o Fathew a'r 41 adnod.

Ar unwaith Gymru anwyl, yn syfyl cyd neshewch,
Rhyw destun prudd alarnad ar ganiad yma gewch,
Mae'n achos ini ochain, a llefain ddydd a nos.
Am noddfa ynglwyfau'r meichiau, fu'n dioddef ar y groes.

Rhyw rybudd ar ol rhybudd sydd beunydd ini'n bod.
I droi o ffyrdd y Diafol, a phob annuwiol nod;
Ymgiliwn rhag ei faglau, a'i rwyddau aml ri',
Rhag gwneud un erchyll weithred, Duw'r nef a'n cadwo ni.

Peth erchyll yw drwg dybiaeth, mae helaeth eglurhad,
Yr hon feithrinir beunydd ar gynydd yn ein gwlad,
Mai n magu anghysuron, i'r galon mai fel cledd,
Mai wedi gyru miloedd o blith y byw i'r bedd.

Gwall-gofrwydd a drwg dybiaeth, 'does un ambeueth la
A barodd y fath laddfa, dydd Mawrth y cynta o Fai,
Oed Crist tri chant ar bymtheg a naw a deugain llawn,
Y gwnaed yr erchyll weithred tua thri o'r gloch prydnaw

O fewn i blwyf Llanwenog, swydd Aberteifi wiw,
Yn Nghefen-rhydd-lan-issa, 'roedd gwr a gwraig yn byw
A phump o blant oedd ganddynt, medd hanes yma i ni,
'Roedd un fel mewn gwasanaeth, a phedwar gartre'n gu

Yr oedd y teulu'n gryno, yn bwyta eu ciniaw ynghyd;
Fe yre'r gwr rhai all'sai, i ryw negesau eu gyd,
A'r wraig roes yn gysurus y baban hoenus hardd,
Mewn gwely clyd i gysgu, fel gall'sai fyn'd i'r ardd.

Y gwr aeth yn sychedig, a gyrai'r wraig i'r tu;
Ni wnaeth ei haros allan, aeth ar eu hol yn hy,
A darn o bren fe'n trawodd, nes syrthiodd ar y llawr,
A'r raser a gymmerai, a thorai ei gwddf 'nawr.

A rhwygo ei bol wnaeth wedi'n oer ddolur iddi ddaeth;
Nes torodd ei ymysgarodd o dyma gyflwr ddaeth!
A rheini yn y golwg, yn amlwg yno'n awr,
A'r gwaed o'i gwddf, a'i dwylaw, a'i chefn yn llifo i'r llawr.

Ar baban naw mis oedran, o'r fath gyflafan drist,
A'r raser fe a dorodd ei gwddf o glust i glust,
Pan 'roedd y gwan yn cysgu, o dyma galedi clir,
Cadd farw'n ddiymwared, mai'n galed dyweud y gwir.

Y wraig ymlusgodd allan i'r cae trwy ddirfawr bo'n
Yn llawn archollion gwedlyd mae'n arswyd ini son;
Aeth yntau i lan yr afon a'i galon fel y graig,
Ar ol cigyddio ei faban ynghyd a'i wiwlan wraig.

X805 C37192

A thori ei wddf ei hunan, gwaith aflan wnaeth efe,
Nes oedd ei waed yn ffrydio, yn llynoedd 'r hyd y lle,
A'i fol a'i ymysgaroedd, a rwygodd tyna'r gwir;
'Roedd ei arenau'n yn amlwg mewn golwg yno'n glir.

A'r lodes ddaeth o'i neges, a gwelodd yno ei thad,
Gerllaw i lan yr afon, yn gorwedd yn ei waed;
A'i olwg yn ddychrynllyd, heb allu symud cam:
A dywedodd wrthi, rhwyges dy chwaer a'th anwyl fam.

A dynion a ymgasglodd yn lluoedd tua'r lle;
Ni welwyd fath erchyll waith erioed mewn gwlad na thre;
Y wraig mewn cae yn gorwedd, yn waeledd tyma'r gwir;
'Roedd yr olygfa yn ddigon i doddi'r galon ddur.

A *sergeant Lloyd* Llan'byther a ddaeth mewn mwynder maith,
Gofynodd iddi, Mary, pwy wnaeth yr erchyll waith?
A'r ateb roddodd hithau, mewn geiriau'r hyn o bryd,
Fy Nghwr fy hun a'i raser a wnaeth y gwaith i gyd.

Ei oreu wnaeth y meddyg, gwr tra dysgedig dwys;
'Roedd llymion saethau angau yn peru poen a phwys;
Y llofrudd a fu farw y noswaith honno yn bwyr;
Pa le yr aeth ei enaid, 'does neb ond Duw a'i gwyr.

Y fam a ddwys gynghorai ei phlant, er maint ei phoen,
Gan ddyweud, ces i drugaredd, trwy rinwedd gwaed yr Oen;
A hithau a fu farw ymhen tua deunaw awr,
A phawb oedd yno yn wylo, yn fychen ac yn fawr.

Cynhaliwyd 'cwest y crowner a'r rheithwyr farnai ar goedd,
Yn ol eu gwir ymddygiad, mai maes o'i bwyll yr oedd:
Am wyth o'r gloch y boreu, mis Mai pedwerydd dydd,
Yn mynwent plwyf Llanwenog, a rhoed ei gorph tan gudd.

Rho'w'd corph y wraig a'r plentyn i lechu yn llwch y llawr,
Yn Rhydybont, nes delo yr adgyfodiad mawr;
Gobeithio i'r enaidiau gael noddfa yn y Nef,
I ganu mewn gogoniant clod byth i'w Enw Ef.

Mae'r plant ymddifad hawddgar mewn galar nos a dydd;
A'u holl berthynasau yn wylo yn awr a'u bronau yn brudd;
Bydd hiraeth mawr o'u herwydd tra byddent beunydd byw
Gwell taflu galar heibio a dwys weddio at Dduw.

O gwiliwn a gweddiwn a llefwn am wellad;
Aed son am lofruddiaethau yn mhell o gyrru ein gwlad;
Diolchwn am synwyrau, dilynwn ddeddfau Duw
Canys ynddo ef mae digon o foddion i ni fyw.

DAVID JONES,
LLANYBYTHER.

*Stephens, Argraffydd, &c. Llanbedr.*